Dal modurwyr



# Technoleg yn goddiweddyd modurwyr anghyfreithlon

## Mae modurwyr sy'n gyrru heb dreth yn Abertawe yn cael eu rhybuddio bod technoleg yn dala lan gyda nhw.



Mae technoleg gan Cyngor Abertawe o'r enw ANPR (Darllenydd Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig) sy'n cael ei defnyddio ar heolydd ar draws y ddinas i leihau nifer y bobl sy'n torri'r gyfraith.

Cyngor Abertawe yw'r unig gyngor yng Nghymru sydd â'r system camerâu ANPR a'r pwerau datganoledig gan y DVLA i weithredu ar eu canlyniadau.

Daw'r rhybudd diweddaraf yn sgil ymgyrch ar y cyd rhwng Tîm Cerbydau Wedi'u Gadael y cyngor a Thîm Plismona Cymdogaeth Gŵyr i adnabod cerbydau heb dreth yn ardal Gŵyr. Arweiniodd yr ymgyrch at ddarganfod fan a oedd yn cael ei gyrru heb dreth, yswiriant na thystysgrif MOT. Stopiodd Heddlu De Cymru'r fan yn ardal Penclawdd.

Roedd tri o bobl yn eu harddegau yn y cerbyd ar y pryd - pob un ohonynt heb ei ddiogelu'n iawn yn y fan.

Meddai'r Cynghorydd John Hague, Aelod Cabinet Abertawe dros yr Amgylchedd, "Nid yw pobl sy'n defnyddio cerbydau yn y cyflwr hwn yn ystyried diogelwch defnyddwyr eraill y ffyrdd o gwbl a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r heddlu i gael cerbydau fel hwn oddi ar yr heol'.

"Mae'r dechnoleg hon yn ei gwneud yn haws nag erioed i ddal gyrrwyr sy'n credu eu bod uwchlaw'r gyfraith."

Yn ystod yr archwiliad, cafwyd hefyd bod y fan yn cael ei gyrru â brêcs diffygiol. Cafodd y cerbyd ei gipio a'i ddinistrio'n ddiweddarach a rhoddwyd gwybod i'r heddlu am droseddau'r gyrrwr.